



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Diploma i Raddedigion mewn Gwaith Ieuenctid a Gwaith Cymunedol

Gyda Chymhwyster Proffesiynol JNC mewn Gwaith Ieuenctid

Gwybodaeth ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser

Blwyddyn Academaidd 2018/2019

Annwyl Fyfyriwr

Croeso i'r Diploma i Raddedigion mewn Gwaith Ieuenctid a Gwaith Cymunedol. Edrychwn ymlaen at gael gweithio gyda chi am y ddwy flynedd nesaf.

Cyfnod Cynefino

Bydd y rhaglen gynefino yn dechrau am **4pm ar Fedi 24^{ain} 2018 ar Gampws Cyncoed** pryd y byddwch yn cwrdd â Chyfarwyddwr eich Rhaglen a lle y cewch eich cyflwyno i'r rhaglen ac i ofynion astudio ar lefel Meistr. Caiff eich cerdyn adnabod ei roi ar y diwrnod hwnnw. Bydd y darlithoedd yn dechrau am 5pm ar Fedi 24^{ain}.

Ymrestru

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyriwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn. Caiff cardiau adnabod eu dosbarthu yn ystod y cyfnod cynefino.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe www.cardiffmet.ac.uk/enrolment a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio. Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

Achredu Dysgu Blaenorol

Gall myfyrwyr wneud cais i gael astudiaeth lefel Meistr flaenorol ei hachredu o fewn y rhaglen ôl-raddedig. Gallai hyn eu heithrio o fodiwlau a addysgir. Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno i Dderbyniadau ac i arweinydd y modiwl cyn i'r rhaglen ddechrau (ewch i www.cardiffmet.ac.uk/RPL i gael rhagor o wybodaeth). Noder nad yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i'r modiwlau gwaith maes ar y rhaglen ôl-raddedig.

Dylai ceisiadau gynnwys: trawsgrifiad y canlyniadau blaenorol (ar gael o gofrestrfa'r brifysgol sy'n rhoi'r dyfarniad) gan gynnwys nifer y credydau a'u lefel a manylion y modiwl a chanlyniadau dysgu'r rhaglen flaenorol. Ni chaiff ceisiadau hwy eu hystyried.

Amlinellid y rhaglen

Rhoddir gwybodaeth fanwl am strwythur y cwrs, ynghyd â chopïau o lawlyfr y rhaglen, pan gyrhaeddwch. Efallai bydd y wybodaeth gryno ganlynol o ddefnydd i chi wrth i chi baratoi i ddechrau ar eich cwrs.

Caiff yr holl sesiynau eu cyflawni ar nosweithiau Llun a bydd y modiwlau a addysgir yn digwydd rhwng 5pm a 7pm a'r sesiynau maes rhwng 7pm a 9pm. Cynhelir yr holl addysgu ar Gampws Cyncoed.

Strategaethau a Disgwyliadau Addysgu

Dylai rhaglen sy'n honni ei bod yn gweithredu ar Lefel Meistr fod yn gallu rhagdybied bod y myfyrwyr:

[a] yn gallu gweithio'n annibynnol;

[b] yn croesawu'r cyfle i fod yn ddysgwyr hunan-gyfeiriedig ac i osod eu nodau eu hunain;

[c] am hunan-werthuso eu dysgu nhw eu hunain yn barhaus.

Bydd yr egwyddorion hyn yn cydnabod hefyd y bydd ein myfyrwyr yn aml, yn ystod eu hoes waith, yn gweithio'n ddigon annibynnol ac yn gyfrifol eu hunain am ddysgu, datblygu a chefnogi pobl eraill. Mae hyn yn golygu y bydd staff tiwtorialau yn datblygu strategaethau dysgu ac addysgu a fydd yn cydnabod aeddfedrwydd a phrofiad eu myfyrwyr.

Bydd y rhaglen yn cynnwys y gweithgareddau, y dulliau a'r technegau canlynol er mwyn gwneud y gorau o'r dysgu a chreu awyrgylch addysgol pleserus:

- Mewnbwn darlithoedd ffurfiol a thrafodaeth
- Seminarau a thrafodaethau o dan arweiniad myfyrwyr
- Gwaith grŵp a gwerthusiadau grŵp beirniadol
- Ymarferion dysgu mewn parau
- Dadansoddi'n feirniadol astudiaethau achos ymarfer-seiliedig
- Ymarferion adfyfyriol beirniadol ar yr hunan
- Astudio, darllen a dysgu agored preifat hunan-gyfeiriedig

Gwaith maes

Os bydd myfyrwyr ôl-raddedig yn dewis ymgymryd â llwybr i gael ennill statws Gwaith Ieuentid Proffesiynol JNC (wedi'i gymeradwyo gan Safonau Hyfforddi Addysg Cymru a'i gydnabod gan Gyngor Gweithlu Addysg Cymru), bydd yn ofynnol iddyn nhw ymgymryd ag o leiaf 300 awr o ymarfer mewn dau safle o leiaf gan weithio gyda phobl ifanc dros y ddwy flynedd o astudio. Bydd angen i'r lleoliadau roi lle i chi foddhau Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gwaith Ieuentid (YWNOS) a bydd angen i chi sicrhau bod hanner yr oriau ar leoliad o leiaf yn golygu cyswllt wyneb-yn-wyneb gyda phobl ifanc.

Os byddwch yn dewis ymgymryd â'r llwybr Datblygiad Cymunedol, bydd gofyn hefyd i chi ymgymryd â 300 awr o ymarfer mewn dau safle o leiaf dros y ddwy flynedd o astudio, ond yn gweithio mewn lleoliadau datblygu cymunedol a fydd yn rhoi lle i chi foddhau Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Datblygu Cymunedol (CDNOS). Ni fydd y llwybr yma yn eich galluogi i ennill statws Gwaith Ieuentid Proffesiynol JNC wedi i chi ei gwblhau.

Bydd hwylusydd gwaith maes yn cael ei neilltuo i chi i gynorthwyo'ch dysgu pan fyddwch ar leoliad a bydd e/hi yn ogystal yn dod i'r tiwtorial wythnosol a gynhelir rhwng 7pm a 9pm ar nos Lun. Byddwch yn cyflawni proses o ddysgu adfyfyriol ar hyd y cwrs dwy flynedd.

Athroniaeth y Rhaglen

Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i roi cyfle i'r bobl hynny sy'n gweithio yng ngwaith ieuenctid a gwaith cymunedol i ddatblygu ac i adfyfrio ar eu hymarfer nhw eu hunain ac i archwilio'n feirniadol ffyrdd i ddylanwadu ar ddatblygiad y maes. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn rhan bwysig o fywyd gweithiwr ieuenctid a gweithiwr cymunedol yn yr unfed ganrif ar hugain ac mae'r rhaglen Diploma i Raddedigion yn cefnogi DPP, ond hefyd mae'n agor drysau i feysydd datblygiadol newydd. Ein nod yw cynnig rhaglen sy'n ysgogol ac yn berthnasol i anghenion y proffesiwn ac sy'n aros yn gyfredol o ran datblygiadau mewn ymchwil i waith ieuenctid/gwaith cymunedol.

Presenoldeb a Phrydlondeb

Mae presenoldeb ym mhob darlith yn orfodol oni chytunir fel arall ymlaen llaw gydag arweinydd y modiwl. Disgwylir yn broffesiynol y bydd y myfyrwyr yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer dechrau'r sesiynau. Cofiwch eich bod yn gweithio ymhlith grŵp o weithwyr proffesiynol ac y dylech ymddwyn mewn ffordd briodol wrth ymgymryd â pherthnasoedd a sgysiau gyda'ch tiwtoriaid a'ch cyd-fyfyrwyr.

Ymrwymadau Ariannol

Fynychaf bydd y rhaglen yn cynnwys pedwar modiwl y flwyddyn. Mae manylion costau ar gael yma: www.cardiffmet.ac.uk/pgfinance. Ar gyfer modiwlau 30 credyd, y ffi ar gyfer 2018/19 yw £1,500 y modiwl.

Mae myfyrwyr a fydd wedi'u cyflogi gan sefydliadau partner sy'n rheoli lleoliadau myfyrwyr yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol hyd at 50% o gostau'r modiwl ym mlwyddyn 1. Dylech gofrestru gyda cjames@cardiffmet.ac.uk

Amserlen y Diploma i Raddedigion mewn Gwaith Ieuenctid a Gwaith Cymunedol 2018/19

Cyfnod Cynefino a Chyflwyno

Dydd Llun Medi 24^{ain} 2018 – cwrdd yn y dderbynfa ar Gampws Cyncoed am 4pm i wirio eich ymrestriad ac i gael eich ‘MetGerdyn’.

Tymor yr Hydref: Dydd Llun, Medi 24^{ain} – Dydd Llun, Rhagfyr 10^{fed} 2018

Tymor y Gwanwyn: Dydd Llun, Chwefror 14^{eg} – Dydd Llun, Mawrth 18^{fed} 2019

Cynhelir y sesiynau ar nos Lun drwy dymor yr hydref a thymor y gwanwyn.

Dydd Llun Medi 24^{ain} – Rhagfyr 10^{fed}:

Perthnasoedd Datblygiadol 5pm – 7pm

Tiwtor: Gill Price

Datblygu Ymarfer Adfyfyriol (Ileoliad gwaith) 7pm – 9pm

Tiwtor: i’w gadarnhau

Dydd Llun Ionawr 14^{eg} – Mawrth 25^{ain}

Egwyddorion Gwaith Ieuenctid a Datblygiad Cymunedol 5pm – 7pm.

Tiwtor: Cez James

Cyd-destun Cymunedol Ymarfer (Ileoliad gwaith) 7pm – 9pm.

Tiwtor: i’w gadarnhau

Paratoi ar gyfer y rhaglen

Byddai’n ddefnyddiol dechrau rhywfaint o ddarllen ac ymchwil rhagarweiniol ar y we i chi gael ymglyfarwyddo â’r materion addysgiadol presennol. I’r perwyl hwn mae rhestr ddarllen a rhestr o gyfeiriadau gwe wedi’u cynnwys.

Rhagolygon o ran Swyddi

Mae cyfle gwych gan raddedigion y rhaglen i gael dyrchafiad neu i symud i feysydd newydd y proffesiynau gwaith ieuenctid a gwaith datblygiad cymunedol.

Manylion Cyswllt

Cyfarwyddwr y Rhaglen: Cez James

Ffôn: 029 20205948

E-bost: cjames@cardiffmet.ac.uk

Cyfeiriad: Cez James Cyfarwyddwr Rhaglen Diploma i Raddedigion, Ysgol Addysg Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed CF23 6XD

Rhestr Ddarllen cyn-cwrs

Bydd y deunyddiau darllen canlynol yn rhoi ystod o ddarllen cyn-cwrs perthnasol i'r myfyrwyr iddyn nhw gael paratoi ar gyfer y cwrs. Nid yw'n ofynnol i'r myfyrwyr ymgymryd â'r darllen cyn-cwrs ond rydym yn eu cynghori i wneud hynny a bydd yn ddefnyddiol wrth baratoi ar gyfer astudio proffesiynol.

Rhyngrwyd

www.infed.org

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/guidance/?lang=en>

<http://cdj.oxfordjournals.org/>

www.jrf.org.uk

youthandpolicy.org

youthworkwales.co.uk

Llyfrau

1. Banks S et al (Eds) (2003) *Managing Community Practice: Principles, policies and programmes*. Bristol. The Policy Press.
2. Bright G (Editor) (2015) *Youth Work, Histories, Policy and Contexts*. London. Palgrave/Macmillan.
3. Beck D & Purcell R (2010) *Popular Education Practice for Youth and Community Development Work (Empowering Youth and Community Work Practice)*. Exeter. Learning Matters.
4. Belton, B. (2009) *Developing Critical Youth Work Theory*, London: Russell House Publishing
5. Boud D, Keogh R & Walker D. (Eds) (1985) *Reflection: Turning Experience into Learning*. Kogan Page.
6. Butcher H, Banks S, Henderson P (2007) *Critical Community Practice*. Bristol. Policy Press.
7. Curran S, Harrison R & Mackinnon D (Eds) (2013) *Working with Young People (2e)*. London. Sage/Open University Press.
8. Dalrymple, J. & Burke, B. (2006) *Anti-Oppressive Practice. (2nd ed)* Buckingham: Open University Press.
9. Emejulu, A. (2015) *Community Development as Micropolitics: Comparing Theories, Policies and Politics in America and Britain*. Bristol. Policy Press.
10. Jeffs T & Smith M (Eds) (2010) *Youth Work Practice*. Houndmills. Palgrave.
11. Ledwith M (2011) *Community Development: A Critical Approach (2e)* Bristol. Policy Press.
12. Nicholls D (2012) *For Youth Workers and Youth Work: Speaking Out for a Better Future*. Bristol. Policy Press.
13. Ord J (Ed) (2012) *Critical Issues in Youth Work Management*. London. Routledge.
14. Somerville P (2016) *Understanding Community: Politics, Policy and Practice (Understanding Welfare: Social Issues, Policy and Practice)*. Bristol. Policy Press.

Dolenni defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)
Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)
Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campwsau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)
Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)
Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)
I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)
I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabledd a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)
Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys